# Llifogydd

## Pwy sy'n gyfrifol a phwy all helpu?

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**Llifogydd Afonol** yw llifogydd o afonydd. Nentydd ac afonydd mwy yw'r prif afonydd fel arfer, er y gall rhai fod yn gyrsiau dŵr bach. Cysylltwch â **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn yr achos hwn.



Mae **llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin** yn cynnwys cyrsiau dŵr nad ydynt yn rhan o brif afon. Cysylltwch â **Cyngor Dinas Casnewydd** yn yr achos hwn.

Mae **llifogydd o ddŵr wyneb** neu **'llifogydd afonol'** yn cael ei achosi gan lifogydd fflach sy'n fwy na chapasiti pridd a charthffosydd. Cysylltwch â **Cyngor Dinas Casnewydd** yn yr achos hwn.

Mae **Llifogydd o Ddŵr Daear** yn digwydd pan fydd dŵr yn codi o dan y ddaear a'r pridd yn mynd yn dirlawn. Cysylltwch â **Cyngor Dinas Casnewydd** yn yr achos hwn.

Mae **Llifogydd Arfordirol** yn digwydd pan fydd llanw uchel yn cyfuno â thywydd garw, gan arwain at stormydd a thonnau mawr. Cysylltwch â **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn yr achos hwn.

**Erydu Arfordirol** yw traul tir drwy donnau, hindreuliad neu wyntoedd uchel. Cysylltwch â **Cyfoeth Naturiol Cymru** a **Cyngor Dinas Casnewydd** yn yr achos hwn.

Mae **Llifogydd Carthffosydd** yn digwydd pan nad yw capasiti'r system garthffosydd yn ddigonol. **Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth** sy'n gyfrifol am hyn.



Mae **Llifogydd o Gronfeydd Dŵr** yn digwydd pan fydd storfeydd dŵr uwchben y ddaear yn methu ac yn achosi gollyngiadau i'r ardal gyfagos. Cysylltwch â **pherchennog y gronfa ddŵr**.

Mae **Llifogydd o Ffyrdd** yn digwydd pan nad yw'r holl ddŵr glaw yn draenio i ffwrdd drwy systemau draenio sy'n bodoli eisoes. Cysylltwch â **Cyngor Dinas Casnewydd** neu **Asiant Cefnffyrdd Cymru**.

### Manylion Cyswllt Awdurdodau Rheoli Risg

- Bydd llifogydd carthffosydd yn dibynnu ar y **Cwmni Dŵr** sy'n gyfrifol am y system er enghraifft **Dŵr Cymru**.
- Os ydych yn **dirfeddiannwr Glan yr Afon**, sy'n golygu eich bod yn berchen ar dir wrth ymyl dyfrffordd, **gallech fod** yn gyfrifol am gynnal ac atgyweirio amddiffyniad rhag llifogydd. I ddysgu mwy cysylltwch â **Cyfoeth Naturiol Cymru** ar gyfer prif afonydd neu **Cyngor Dinas Casnewydd** ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin.
- I roi gwybod am ddigwyddiad i CNC ffoniwch **0300 065 3000** neu ewch i **adnoddau naturiol.cymru**
- I roi gwybod am ddigwyddiad i Gyngor Dinas Casnewydd ffoniwch **01633 656 656** neu ewch i **www.newport.gov.uk/en/Transport-Streets/Road-Street-Maintenance/Report-A-Problem/Flooding.aspx**